# Y CABINET DYDD MAWRTH, 11 MEDI 2018

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 7: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol dros dro)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. W Gareth Roberts

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 31 GORFFENNAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 31 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

a) Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
b) Gofyn i'r Prif Weithredwr ymchwilio i'r sefyllfa gyda'r amser a gymerir i

gael DBS i weld a yw'n broblemus i wasanaethau eraill y Cyngor ac os yw, a ellir gwneud rhywbeth am y broblem.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn adlewyrchu trafodaethau a gynhaliwyd yng Nghyfarfod Herio Perfformiad yr Adran. Ychwanegwyd fod peth o'r wybodaeth bellach wedi dyddio gan fod y cyfarfod wedi ei gynnal ym mis Gorffennaf.

Nodwyd fod cyfartaledd penderfyniadau ceisiadau cynllunio wedi bod yn weddol sefydlog tan eleni. Esboniwyd fod yr Aelod Cabinet wedi holi beth yw'r rheswm dros hyn a nodwyd eu bod wedi cymryd amser i arfer a'r Cynllun Datblygu Lleol. Ychwanegwyd fod y Cynllun Dirprwyo Cynllunio bellach wedi ei diwygio ac mae gobaith y bydd hyn yn lleihau llwyth gwaith y Pwyllgor a fydd yn cyflymu'r broses penderfyniadau cynllunio.

Trafodwyd mesurydd sydd yn nodi pa mor sydyn mae'r holl achosion gorfodaeth ar gyfartaledd yn cymryd i'w datrys gan nodi nad oedd y gwasanaeth na'r Aelod Cabinet yn hyderus mai hwn yw'r mesurydd cywir. Yr ymdeilad yw fod mesur os yw'r gwaith achosion gorfodaeth yn cael ei wneud yn gywir yn fwy pwysig i bobl Gwynedd na'r amser mae'n cymryd i'w ddatrys, gan fod hynny yn gallu amrywio o achos i achos.

Nodwyd wrth edrych ar fesurydd adran Hylendid Bwyd fod y ffigyrau yn isel o ran sefydliadau sydd wedi cael eu hadolygu. Esboniwyd mai o ganlyniad i ddiffyg adnodd staff oedd y rheswm am hyn. Ychwanegwyd fod dwy swydd ychwanegol bellach wedi eu creu a bydd canlyniadau hyn i'w gweld yn yr adroddiad Perfformiad nesaf. Mynegwyd fod yr Uned Difa Pla bellach wedi cynyddu eu hincwm a bellach yn ariannol hunangynhaliol. Ychwanegwyd fod canran bodlonrwydd y cwsmeriaid yn 100%.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod nifer y tai sydd wedi eu cymeradwyo gan yr adran gynllunio yn isel iawn am y chwarter. Ychwanegwyd fod 45% o'r tai a gymeradwywyd yn dai fforddiadwy.
- Trafodwyd y mesurydd Achosion Gorfodaeth gan holi os yw'r mesurydd yn cyd-fynd a mesurydd y Llywodraeth. Nodwyd ei fod ac nad yw'r mesurydd yn ychwanegu gwerth i drigolion Gwynedd.
- Trafodwyd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais Trwydded Tacsi gan nodi mai un o'r ffactorau sydd yn effeithio yn sylweddol ar amser yw'r amser mae hi yn cymryd i'r Gwasanaeth DBC cenedlaethol gymryd i brosesu tystysgrif DBS. Ychwanegwyd fod hyn yn broblem yn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac yr adran Addysg. Penderfynwyd fod angen gofyn i'r Prif Weithredwr i ymchwilio er mwyn gweld os y gellir gwneud rhywbeth i wella'r sefyllfa.

**7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHRIAETH GWYNEDD**

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Gareth Griffith

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Derbyn gohirio gweithrediad y cynllun arbedion Canolfannau Ailgylchu (PB5) yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gan ymdrin â'r bwlch sy'n cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen, a hefyd yn cymeradwyo gweddill y cynigion a nodir yn rhan 6.3 yr adroddiad i gyfarch y bylchau mewn cynlluniau arbedion eraill.

**TRAFODAETH**

Diolchwyd a dymunwyd yn dda i Gyn-bennaeth yr Adran - Gwyn Morris Jones - ar ei ymddeoliad ddiwedd Awst. Croesawyd Steffan Jones i'w rôl fel Pennaeth yr Adran dros dro.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yn wyneb y ffaith fod yna ddewisiadau eraill gyda llai o ardrawiad ar bobl Gwynedd ar gael, fod yr adran yn awyddus i ohirio gweithrediad y cynllun arbedion Canolfannau Ailgylchu gan ymdrin â'r bwlch sydd yn cael ei greu wrth ystyried arbedion 2019/20 ymlaen. Mynegwyd fod mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd eleni yn dangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2017/19.

Nodwyd fod Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu fod yr Aelod Cabinet yn fodlon a'r perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth. Ychwanegwyd fod 1.21 miliwn o gasgliadau gwastraff wedi ei wneud yn y cyfnod Ebrill i Fehefin a bod 3,067 o gwynion wedi eu derbyn. Cydnabuwyd fod y ffigwr yn isel o'u gymharu â nifer y casgliadau. Nodwyd fod yr Aelod Cabinet wedi gofyn i'r adran gyflwyno gwybodaeth i adnabod y rhesymau dros unrhyw fethiant i roi sylw i'r agweddau y bydd modd dylanwadu arnynt.

Trafodwyd y Cynllun Peilot ar Orfodaeth Stryd a gomisiynwyd cwmni allanol i gynnal treial gorfodaeth stryd am flwyddyn. Nodwyd fod y treial wedi para ychydig ddyddiau ym mis Chwefror. Mynegwyd fod yr adran yn edrych i ddechrau peilot arall gan ddefnyddio adnoddau mewn i dargedu ardaloedd ble mae problemau parhaus. Ychwanegwyd y bydd yr adran yn diweddaru'r Cabinet ar y mater unwaith y bydd y cynllun peilot ar waith.

Mynegwyd mai un o brif fesurau Ymgynghoriaeth Gwynedd yw adnabod elw yn erbyn target. Nodwyd fod y lefel incwm yn îsl ar gyfer y chwater ond, o edrych ar batrymau hanesyddol, fod y ffigwr hwn yn is am y chwarter cyntaf.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd y Peilot Gorfodaeth Stryd gan holi os oes trafodaethau yn cael eu cynnal a siroedd eraill. Nodwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi bod a siroedd y Gogledd a byddant yn edrych am opsiynau posibl.
- Mynegwyd fod y mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd yn drefn

genedlaethol a bod yr adran a Chadw Cymru yn Daclus yn rhoi sgôr am y lefel Glendid.

- Holwyd os oes cynnydd wedi bod mewn Graffiti Hiliol, nodwyd nad oedd cynnydd a'i fod yn parhau, fwy neu lai, ar yr un lefel.
- Nodwyd am eleni fod nifer ymwelwyr i'r sir wedi bod yn sylweddol uwch, ac felly diolchwyd i'r staff am gadw strydoedd yn lan gan nodi ei fod wedi bod yn dasg anodd. Nodwyd fod angen edrych ar y strwythur gan fod llawer mwy o bwysau ar y gwasanaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.30 y.h.

**CADEIRYDD**